

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y Cam Gweithredu	Statws
1	Fin nos ar 13/10/2014 roedd nyrs gofrestredig yr asiantaeth ar ddyletswydd yn anymwybodol o rywfaint o wybodaeth allweddol; a. Nifer y cleifion yn yr ysbyty. b. Nifer y gwelyau yn yr ysbyty. c. Hysbysfwrdd gwybodaeth y cleifion yn y swyddfa. d. A oedd unrhyw gleifion yn destun Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. (Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid). e. Mynediad i'r adroddiad trosglwyddo wedi'i gadw ar y cyfrifiadur.	Rheoliad (1) (a) a (b) a Rheoliad 20 (1) (a) a (b)	a-d Bwrdd Cofrestru Enwau yn y Swyddfa Nyrsio i gynnwys y wybodaeth berthnasol i gyd sydd wedi ei nodi. Defnydd o'r Bwrdd Cofrestru Enwau wedi ei ychwanegu at Gynllun Sefydlu Nyrsys Asiantaeth.	Rheolwr Ysbyty	21.11.14	Cwblhawyd
			Rheolwr Ysbyty	21.11.14	Cwblhawyd	
			Staff nyrsio	21.11.14	Cwblhawyd	
			Rheolwr Ysbyty	21.11.2014	Parhaus - Clinigydd /Nyrs sy'n ymgymryd â'r broses sefydlu i weithredu'r camau yn ystod y broses sefydlu	
2	Wrth inni gyrraedd Neuadd Coed Du a mynd i Ward Cedrwydden, roedd yn amlwg bod o leiaf dau aelod o staff a ddylai fod wedi bod ar wardiau eraill. Gwirionedd y sefyllfa oedd bod wardiau eraill heb staff. Dylai pob ward gael ei staffio trwy'r amser.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a Rheoliad (1) (a)	Y Nyrs â Gofal (NIC) am y cyfnod o ddyletswydd i ddyrannu pob aelod o staff i ardaloedd gweithio ar ddechrau cyfnod o ddyletswydd	NIC am y cyfnod o ddyletswydd	14.10.2014	Cwblhawyd
			NIC i nodi dyraniad staff ar ddechrau'r cyfnod o ddyletswydd yn adran sylwadau'r daflen drosglwyddo electronig.	NIC am y cyfnod o ddyletswydd	12.12.2014	Cwblhawyd

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

3	Nid oedd y rhestr wirio sefydlu ar gyfer nyrs gofrestredig asiantaeth A wedi ei chwblhau. O'r herwydd, roedd yn anodd canfod pa agweddau ar y broses sefydlu ar gyfer staff asiantaeth oedd wedi eu cwblhau. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 ac mae angen rhoi sylw iddo.	Rheoliad) 20 (1) (b)	Yn sgil trafodaeth gyda'r Asiantaeth, ni roddir cyfnodau o ddyletswydd i nyrs staff A mwyach yn Neuadd Coed Du. Bydd Nyrsys Clinigol Arweiniol yn sicrhau bod pob aelod newydd o staff asiantaeth yn cwblhau proses sefydlu'r asiantaeth.	Ysbyty Rheolwr KK / LB	14.10.2014 14.10.2014	Cwblhawyd Cwblhawyd
Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y Cam Gweithredu	Statws
4	Yn ystod ein hymweliad roedd staff asiantaeth ar ddyletswydd (A a B), fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau pa sgiliau roedd ganddynt a pha brofiad roeddent wedi ei gael. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 (pwynt 2) ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater. Rhaid bod gan y darparwr cofrestredig dystiolaeth bod gan staff asiantaeth y profiad i sicrhau cysondeb gofal ar gyfer y grŵp cleifion.	Rheoliad 21 (2) (b)	Mon Care ac Asiantaeth Jane Lewis i roi'r wybodaeth angenrheidiol am sgiliau ac arbenigedd pob aelod o staff a gyflenwir i Neuadd Coed Du (roedd rhai o'r staff yn y ddogfen sgiliau a oedd wedi'i diweddarau ym mis Gorffennaf 2014 wedi rhagflaenu'r newid yn y ddogfen).	Gweinyddwr Ysbyty	21.11.2014	Cwblhawyd
5	Archwiliwyd pedair set o ddogfennau gofal a gwnaed yr arsylwadau canlynol:	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)				
5a	Claf 73362 ar Ward Cedrwydden: i. Nid oedd y cofnod arsylwi wedi'i ddiweddarau. Am 11:20am, pan archwiliodd AGIC y cofnodion, y cofnod olaf oedd am 10:00 ac nid oedd y cofnod hwn wedi ei lawn gwblhau. ii. Nid oedd cofnodion arsylwi eraill	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)	i. Cyfarfodydd staff a hyfforddiant ychwanegol ar gwblhau arsylwadau. ii. Ffurflenni arsylwi i gael eu hadolygu er mwyn cadw cofnodion gwell.	NCY / GT TA	Wythnos yn dechrau (W/D) 27.10.2014 31.10.2014	Cwblhawyd Cwblhawyd

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

	<p>wedi'u llawn gwblhau ac nid oeddent yn ddigon manwl.</p> <p>iii. Nid oedd y cynllun rhyddhau wedi'i werthuso yn unol â'r amselen a nodwyd.</p> <p>iv. Mae angen datblygu'r amserlen gweithgareddau a "threfn y bore, brecwast ac ystafell daclus" i barhau'n nodwedd gyffredin.</p>		<p>iii. Y cynllun gofal i gael ei werthuso mewn cyfarfodydd TA</p> <p>iv. Y cynllun gweithgareddau i gael ei adolygu ond gweithgareddau sefydlog i barhau</p>	<p>TA</p> <p>Prif Nyrs/TA</p>	<p>24.10.2014</p> <p>04.08.2014</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y Cam Gweithredu	Statws
b	<p>Claf 73370 ar Ward Onnen:</p> <p>i. Diffyg tystiolaeth yn y cofnodion dyddiol o driniaeth ac ymyriadau therapiwtig.</p> <p>ii. Mae'r risg o fod yn agored i niwed wedi'i asesu yn "uchel iawn" ond nid oedd y strategaeth ar reoli risg yn ddigon cadarn ac roedd diffyg manylder.</p> <p>iii. Roedd diffyg tystiolaeth ysgrifenedig bod y claf wedi cael ei gynnwys, neu wedi cael y cyfle i gael ei gynnwys yn y broses asesu risg.</p> <p>iv. Nid oedd y cynllun cymorth ar</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>	<p>i. Hyfforddiant ychwanegol i staff ar gadw cofnodion</p> <p>ii. Strategaeth ar reoli risg i gael ei hadolygu fel mater o drefn mewn cyfarfodydd TA</p> <p>iii. Tystiolaeth o fewnbynnu 73370 (neu nacáu mewnbynnu). Darllen hawliau cleifion (i bawb) i gynnwys gwahoddiad i gymryd rhan mewn cynllunio gofal a risg. Eitem agenda mewn cyfarfodydd Cymunedol</p>	<p>NC-Y/CL</p> <p>Prif Nyrs TA 73370</p> <p>Prif Nyrsys Rheolwr Ysbyty</p>	<p>w/d 03.11.2014</p> <p>29.10.2014 19.11.2014 26.11.2014</p> <p>29.10.2014</p> <p>03.11.2014</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd / Yn parhau</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

	ddiabetes yn ystyried gofal traed a chymhlethdodau iechyd corfforol yn ddigonol. Mae angen datblygu'r cynllun gweithgareddau (Tachwedd 2014) yn bellach.		iv. Cynllun Gofal Diabetes i gael ei ddiwygio i gynnwys pob agwedd ar ddiabetes sy'n perthyn i ofal iechyd corfforol. v. Adolygu'r cynllun gweithgareddau.	Prif Nyrs TH Arweinydd Cymorth Gweithredol LP	08.11.2014 24.10.2014	Cwblhawyd Cwblhawyd
5c	Claf 73381, Ward Cedrwydden: i. Roedd nifer o fylchau yn y cofnodion arsylwi. ii. Mae angen datblygu'r cynllun gweithgareddau'n bellach gan fod diffyg manylion ar weithgareddau ystyrlon. iii.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)	i. Cyfarfodydd staff a hyfforddiant ychwanegol ar gwblhau arsylwadau. ii. Amserlen weithgareddau i gael ei hadolygu	NCY / GT Arweinydd Cymorth Gweithredol LP	W/D 27.10.2014 24.10.2014	Cwblhawyd Cwblhawyd
Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y Cam Gweithredu	Statws
5d	Claf 73375, Ward Ffawydden: i. Roedd diffyg gwerthuso'r cynllun cefnogi ymddygiad a wnaed gan y seicolegydd ac roedd yn aneglur sut roedd y ddogfen hon yn cyd-fynd â chynlluniau gofal eraill. ii. Roedd y strategaeth reoli risg ar	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)	73375 BSP i gael ei ddiwygio â chyfraniad gan dîm allanol BCUHB Hyfforddwyr RESPECT i geisio arweiniad gan	Prif Nyrs (LB) EJ / GT /MH	21.10.2014 03.11.2014	Cwblhawyd Yn parhau

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

	ymddygiad ymosodol tuag at bobl eraill ond yn ystyried dal neu hebrwng gan ddau o bobl, er bod achlysuron amlwg wedi bod lle roedd angen mwy na dau o bobl i rwystro'r claf.		arweinwyr Cenedlaethol ar RESPECT gwell			
6	Roedd gan nifer o glefion (73381, 73376, JR73361, 73360, 73368, and 73373) gyfleoedd cyfyngedig i adael yr ysbyty ar gyfer gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Mae'n rhaid i bob claf gael y cyfle i fynychu gweithgareddau yn y gymuned.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b)	Cynyddu gweithgarwch therapiwtig allanol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a nodwyd	Therapi Galwedigaethol (O/T) Cefnogi gweithgarwch Nyrsys Cofrestredig Gweithwyr Cymorth	w/d 03.11.2014	Yn parhau
7	Yn dilyn yr adolygiad staff (pwynt 3, llythyr mis Mehefin 2014) mae dal i fod nifer o glefion nad ydyn nhw'n cael gadael Neuadd Coed Du er mwyn gwneud gweithgareddau cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ymgymryd â dadansoddiad o absenoldeb â chaniatâd/gweithgareddau (y tu allan i diroedd Neuadd Coed Du) o fewn y tri mis diwethaf (Gorffennaf-Medi 2014) ac adrodd ar y canfyddiadau i AGIC.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 19 (1) (a) a (b)	Archwiliad o absenoldeb hamdden a chymdeithasol 01.07.2014 – 30.11.2014.	CLNs / Tîm OT	01.12.2014	Cwblhawyd (wedi ei atodi)
Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y Cam Gweithredu	Statws
	Mae angen ailaddurno ac ailwampio'r ysbyty yn	Rheoliad 26 (2)	Ailwampio unedau wedi ei gynllunio fel rhan o			

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

8	<p>barhaus. Yr ardaloedd sydd angen sylw yw:</p> <p>a. Ceginau ar lefel y wardiau, yn enwedig Ward Ffawyddden lle roedd y wynebâu gwaith yn dolciog.</p> <p>b. Roedd gan lolfa Ffawyddden staeniau hylifau ar y waliau a'r nenfwd.</p> <p>c. Mae angen sicrhau bod y seddi ar y wardiau yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Ar Ward Cedrwydden roedd rhai o'r sofas a chadeiriau'n eithriadol o isel ac roedd rhai cleifion yn cael trafferth wrth godi ohonyn nhw.</p>	(a) a (b)	<p>ddeiliadaeth â gwasanaeth gostyngedig</p> <p>a. Adroddwyd i'r Unigolyn Cyfrifol am osod wynebâu gwaith i'r gegin (Ffawyddden) mis Medi 2014</p> <p>b. Nenfwd Ffawyddden i gael ei phaentio fel rhan o ailwampio â deiliadaeth ostyngedig.</p> <p>c. Dodrefn a ffitiadau dan adolygiad gan Unigolyn Cyfrifol Medi 2014</p>	<p>MH (Unigolyn Cyfrifol)</p> <p>Cynnal a Chadw</p> <p>MH (Unigolyn Cyfrifol)</p>	16.10.2014	<p>Wynebâu gwaith wedi eu harchebu ac yn aros am ddyddiad gweithredu'r cam</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Yn aros am ddyddiad gweithredu'r cam</p>
9	<p>Mae angen cynnal adolygiad parhaus o leoliadau'r cleifion. Er bod rhai cleifion wedi symud ymlaen, roedd rhai ar ôl sydd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod sylweddol. Nodwyd y pwynt hwn ym mis Mehefin 2014 (pwynt 13) ac mae'n rhaid parhau i adolygu'r lleoliadau hyn.</p>	Rheoliad 15 (1) (a) a (b)	<p>Statws rhyddhau pob claf wedi'i adolygu gan y Clinigydd Cyfrifol a'r TA wedi cofnodi'r camau gweithredu pellach sydd eu hangen gan dimau comisiynu a chymunedol er mwyn hwyluso rhyddhau yn y ffeiliau gofal.</p>	<p>Dr AS / BCUHB a chomisiynwyr eraill</p>	10.11.2014	Cwblhawyd
10	<p>Roedd prosesau rheoli heintiau'n dal i fod yn ddiffygiol, fel y nodwyd mis Mehefin 2014 (pwynt 7). Yn ystafell ymolchi Ward Onnen, roedd bag coch o ddillad wedi eu baeddu ar y llawr, oedd wedi ei dorri a'r dillad yn gollwng ar y llawr. Roedd tyweli glân wedi eu pentyrru ar y caead bin budr ac roedd y toiled wedi ei faeddu'n drwm. Mae angen prosesau rheoli heintiau effeithiol a dylid eu gweithredu'n syth.</p>	Rheoliad 9 (1) (n) a 15 (1) (c)	<p>Pob aelod o staff i dderbyn hyfforddiant ar reoli heintiau.</p> <p>Pennu aelod o staff i ymgymryd â hyfforddiant allanol ar reoli heintiau, ac i arwain ar faterion Rheoli Heintiau.</p>	<p>NC-Y/CL</p> <p>LB (LCN)</p>	<p>w/d 03.11.2014</p> <p>11, 12 Tachwedd 2014</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
Rhif	Pryder	Rheoliad	Cam gweithredu	Cyfrifol	Dyddiad y	Statws

Ysbyty Neuadd Coed Du

Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

					Cam Gweithredu	
11	Mae angen adolygu'r dull o ddsbarthu bwyd a dylai ystyried y pwyntiau canlynol; a. Staff Ward Onnen yn bennaf oedd yn cael eu dewis i roi bwyd i gleifion ar bob ward. b. Dywedodd staff a chleifion mai Ward Cedrwydden yn aml iawn oedd yr olaf i dderbyn y troli fwyd. O ganlyniad, nid oedd tymheredd y bwyd yn ddigon poeth a'r dewis yn gyfyngedig gan fod y wardiau eraill wedi cael eu gweini'n gyntaf.	Rheoliad 15 (9) (b)	a. Tynnodd adolygiad gyda staff Ward Onnen at y ffaith mai dim ond un ohonyn nhw oedd yn ymgymryd â dyletswydd y troli fwyd. Fodd bynnag, mae cogyddion bellach yn gweini bwyd o'r troli i staff a defnyddwyr gwasanaeth fel mater o drefn.	Cogydd/Nyrs â Gofal	16.10.2014	Cwblhawyd
			b. Pob uned yn cymryd ei thro wrth ddsbarthu bwyd o'r troli.	Cogydd/Nyrs â Gofal	16.10.2014	Cwblhawyd
			c. Dangosodd hapwiriadau gan y cogydd yn ystod gweini prydau fod tymheredd y bwyd yn gyson briodol.	Cogydd	16.10.2014	Cwblhawyd
12	Roedd ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd mae'r gwasanaeth yn datblygu, a diffyg cyfathrebu rhwng rhai disgyblaethau'n cael effaith negyddol ar forâl. Mae angen penderfyniad o ran datblygu'r gwasanaeth ac mae angen gwella cyfathrebu.	Rheoliad 18 (2) (a) a (b)	Cyfarfodydd staff wedi eu trefnu'n fisol Medi 2014 – Gorffennaf 2015 Clinigydd Cyfrifol yn cwrdd yn wythnosol â gweithwyr cymorth a thrafod materion maen nhw eisiau eu codi.	Rheolwr Ysbyty Clinigydd Cyfrifol	05.08.2014 26.09.2014	Cwblhawyd Cwblhawyd/yn parhau
13	Tynnodd adborth gan staff a chleifion sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o ddarpariaeth eiriolaeth. Mae'n rhaid hyrwyddo gwasanaethau eiriolaeth.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b)	Gwasanaeth Eiriolaeth Sir y Fflint i ddarparu hyfforddiant fel rhan o'r broses sefydlu /hyfforddiant gorfodol.	Eiriolaeth Sir y Fflint	w/d 03.11.2014	Cwblhawyd / Yn parhau
14	Nid oedd asesiadau personau iechyd meddwl cymeradwy (AMHP) ar gael gyda'r dogfennau cyfreithiol. Rhaid i asesiadau AMHP gyd-fynd â'r dogfennau cyfreithiol.		Rhestr wirio dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'i golygu i gynnwys yr angen am adroddiadau AMHP gyda dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl pan fydd cleifion yn cael eu derbyn i'r gwasanaeth.	EJ / AS	03.12.2014	Cwblhawyd

Ysbyty Neuadd Coed Du
Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Dirybudd 13-15 Hydref 2014

15	Mae gan yr ysbyty Glinigydd Cyfrifol (CC) newydd ac nid oedd asesiadau newydd o alluedd meddyliol wedi'u cwblhau. Mae angen asesiad o alluedd meddyliol.		Dr A Shetty i adolygu a llofnodi asesiadau o alluedd meddyliol.	Dr AS	17.10.2014	Cwblhawyd
-----------	--	--	---	-------	------------	-----------